

Bwrsariaeth Gwent, Priysgol De Cymru 2021/22*

* Cynigir ysgoloriaethau a bwrsariaethau Prifysgol De Cymru ar y sail y gallant newid o bosibl. Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r hawl i gyfyngu ar nifer yr ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau sydd ar gael.

Cwestiynau Cyffredin

Pwy sy'n gymwys?

I fod yn gymwys mae angen i chi fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod yn fyfyrwr cartref yn y DU sy'n atebol am gyfradd cartref ffioedd dysgu (Cyllid Myfyrwyr Cymru).
- Gwneud cais am gwrs PDC israddedig llawn amser sydd wedi'i leoli ar gampws PDC ac sy'n dechrau ym mis Medi 2021. Rhaid cyflwyno eich cais erbyn 1 Ebrill 2021.
- Sicrhau mai PDC yw eich dewis cadarn erbyn 1 Mai 2021
- Bod yn byw o fewn cod post NP ar adeg ymgeisio i PDC
- Bod chi wedi cael 128 pwynt UCAS (sy'n gyfwerth â graddau ABB) drwy Lefel A neu gyfwerth
- Wedi eich cofrestru ar gwrs llawn amser cymwys ar adeg derbyn taliad y fwsariaeth

Sut ydw i'n gwneud cais?

Does dim ffurflen gais ar wahân. Byddwch chi'n cael eich ystyried ar gyfer y fwsariaeth yn awtomatig os ydych chi'n bodloni'r meini prawf llawn uchod.

Faint yw gwerth y bwrsari?

Byddwch yn derbyn £1000, a fydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc trwy BACS ym mis Chwefror 2022.

Bydd y Tim Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr yn cysylltu â myfyrwyr cymwys ym mis Ionawr 2022 gyda gwybodaeth ar sut i gyflwyno manylion banc.

Noder: Rhaid i fyfyrwr cymwys fod mewn sefyllfa academaidd gadarn yn y Brifysgol ar adeg derbyn y taliad e.e. ni ddylent fod yn ddyledwr heb gynllun ad-dalu.

Pa gymwysterau sy'n cael eu hystyried ar gyfer y fwsariaeth?

I gael eich ystyried ar gyfer y fwsariaeth, rhaid bod chi wedi cael 128 pwynt UCAS (sy'n gyfwerth â graddau ABB) drwy Lefel A neu gyfwerth, ar draws tri chymwyster ar y mwyaf.

Bydd y cymwysterau Lefel 3 canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu a ydych chi'n gymwys ar gyfer y fwsariaeth: Lefel A, BTEC, Bagloriaeth Cymru, Access, Cambridge Technical, International Baccalaureate, Scottish Highers, AQA, CACHE, City & Guilds, Astudiaethau Sylfaenol Celf a Dylunio, NCFE, OCR, Pearson, Rock School, Irish Leaving Certificate, UAL, VTCT, Diploma a Thystysgrif CBAC.

Yn PDC, rydym yn ytyried ceisiadau ar sail unigolyn. Rydym yn gallu gwneud cynigion unigol yn seiliedig ar eich proffil academaidd ar draws y rhan fwyaf o'n cyrsiau. Ar ôl derbyn eich canlyniadau arholiad, byddem yn ystyried eich cais cyfan cyn gwneud penderfyniad, nid eich graddau terfynol yn unig. Felly, mae eich canlyniadau TGAU a Lefel 2, geirda, datganiad personol a phrofiad gwaith perthnasol yn bwysig hefyd.*

**ac eithrio cyrsiau Nyrsio a Bydwreigiaeth, Ceiropracteg, Gwyddorau Meddygol, Gwaith Cymdeithasol, cyrsiau Cyfrifiadureg Mcomp a chyrsiau Peirianeg BEng/MEng.*

Sut fydda i'n gwybod os ydw i'n llwyddiannus?

Bydd y Tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrrwyr yn eich hysbysu o'ch cymhwysedd trwy eich **cyfeiriad e-bost Prifysgol** erbyn diwedd mis Medi 2021

Os nad ydych wedi derbyn cadarnhad o'r bwrsariaeth erbyn 10 Medi 2021 ac rydych o'r farn eich bod yn bodloni'r meini prawf llawn, anfonwch e-bost at scholarships@southwales.ac.uk

Noder: bydd y fwsariaeth yn cael ei thalu i fyfyrwyr cymwys ym mis Chwefror 2022 .

Oes rhaid fy mod wedi cofrestru ar gwrs cymwys ar adeg y taliad ?

Oes.

A fyddaf yn derbyn taliad bob blwyddyn ar fy nghwrs ?

Na, bydd y fwsariaeth yn cael ei thalu yn eich blwyddyn gyntaf yn unig .

Rwy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y Fwsariaeth Gwent ac ysgoloriaeth neu fwsariaeth arall yn y Brifysgol – oes modd cael mwy nag un ysgoloriaeth neu fwsariaeth?

Oes.

Roeddwn yn mynd i wneud cais i'r Brifysgol am fynediad 2021 ond rydw i'n awr yn ystyried blwyddyn allan, a fyddaf yn dal yn gymwys?

Os ydych chi'n bwriadu cychwyn eich cwrs ym mis Medi 2022, bydd angen i chi wirio manylion unrhyw gynllun bwrsariaeth neu ysgoloriaeth sydd ar gael i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2021 ac yn bodloni'r meini prawf cymhwyster sy'n ymwneud â'r cynllun hwnnw, gan gynnwys gwneud cais os oes angen.

Pa gyrsiau sy'n gymwys?

Mae'r fwsariaeth ar gael i fyfyrwyr gradd israddedig , llawn amser cymwys sy'n dechrau blwyddyn 1 ym mis Medi 2021.

Noder, nid yw'r fwsariaeth ar gael i fyfyrwyr HND/HNC, CERT HE, Gradd Sylfaen, blwyddyn atodol neu raddau di-anrhydedd.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn trosglwyddo cyrsiau yn fy mlwyddyn gyntaf?

Ar yr amod eich bod yn trosglwyddo i gwrs cymwys arall ac yn parhau i fodloni'r meini prawf bwrsariaeth, byddwch yn dal i fod yn gymwys i dderbyn taliad ar yr amser a fwriadwyd.

Rydw i'n dilyn blwyddyn sylfaen ym Mhrifysgol De Cymru ar hyn o bryd; a fyddaf yn gymwys?

Na. Mae'r fwsariaeth ar gael i fyfyrwyr gradd israddedig , llawn amser cymwys sy'n dechrau blwyddyn 1 ym mis Medi 2021.

Rwy'n fyfyrwr rhan-amser; a fyddaf yn gymwys?

Na. Mae'r fwsariaeth ar gael i fyfyrwyr gradd israddedig , llawn amser cymwys sy'n dechrau blwyddyn 1 ym mis Medi 2021.

Rydw i'n fyfyrwr israddedig sy'n parhau gyda fy astudiaethay, a fyddaf yn gymwys?

Na. Mae'r fwsariaeth ar gael i fyfyrwyr gradd israddedig , llawn amser cymwys sy'n dechrau blwyddyn 1 ym mis Medi 2021.

Beth sy'n digwydd os ydw i'n tynnu allan o fy astudiaethau yn y Brifysgol?

Os ydych chi'n gadael y Brifysgol cyn derbyn eich taliad ym mis Chwefror 2022, fyddwch chi ddim yn gymwys i dderbyn y fwsariaeth.

Os ydych chi'n penderfynu gadael y Brifysgol ar ôl derbyn y taliad, rydych chi'n gymwys i gadw'r taliad.

Os byddaf yn derbyn gordaliad, a fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?

Bydd. Trwy dderbyn unrhyw daliadau rydych chi'n cytuno i ad-dalu unrhyw symiau a ganfyddir wedyn fel gordaliadau neu daliadau anghywir. Bydd unrhyw ordaliadau nad ydynt yn cael eu had-dalu yn golygu y caiff y ddyled ei chyfeirio at adran Cyllid y Brifysgol a chymerir camau priodol

A allaf apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau ynghylch fy nghymhwyster?

Mae gan bob myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y Tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrywyr ynghylch eu cymhwysedd ar gyfer y Fwrsariaeth Dilyniant.

Mae manylion llawn am y broses Apelio Ysgoloriaethau / Bwrsariaethau ar gael yma

<https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid/proses-apelio-ysgoloriaeth-bwrsariaeth/>